ymarferol yn bwysig i'r Brodyr. Rhan o'u cenhadaet.ı oedd cynorthwyo'r anghennus a'r amddifad ac addysgu'r anfreintiedig. A chenhadaeth felly oedd yn ddiau y tu ôl i ymdrechion Dr Pughe yn sefydlu Bwrdd Iechyd i ardal Aberdyfi a Thywyn ac yn sicrhau Ysgol Frytanaidd i Dywyn.

Yng nghanol ei brysurdeb fe'i trawyd yn wael ar fore'r Groglith 1874 a bu farw ymhen ychydig o ddyddiau. Ni welwyd o'r blaen yn Aberdyfi ddim tebyg i ddydd ei angladd. Yr oedd holl weithwyr y dref yn segur, y siopau ynghau a'r llongau yn yr harbwr â'u banerau ar hanner y mast. Ac yna'r tyrfaoedd yn dylifo yno o dde a gogledd i hebrwng Ioan ab Hu Feddyg, hanner cant a naw oed, i fynwent Maethlon.

Cafodd oes hwy na'i frawd, David William Pughe. Braidd na ellid disgrifio ei yrfa ef fel efelychiad gwan o un ei frawd hŷn, John. Cymhwysodd yntau ei hun yn feddyg ac âi hynafiaethau â'i fryd. Cyfrannai erthyglau i'r *Archaeologia Cambrensis.* Yr oedd hyd yn oed ei enw mabwysiedig, Dafydd ab Hu Feddyg, yn eco o un ei frawd.

Cartrefai gyda'i rieni ym Mron Dirion, y tŷ a gododd John. Pan oedd y tŷ yn gymharol newydd gwahoddwyd rhai o saint capel Brynaerau i gyfarfod gweddi yn y plas hardd. Penliniodd un hen sant mwy gwerinol na'i gilydd yn y cyfarfod gan weddio, 'O Arglwydd dyro dy fendith ar y gronglwyd hon'.

Dehonglodd y Doctor y gair 'cronglwyd' fel sarhad ar ei gartref. Aeth yn ddrylliau a chertiodd y saint o'i dŷ. Ni welwyd mohono yn y capel yn hir iawn wedyn. Ond 'roedd cyneddfau crefyddol y teulu yn gryf ynddo yntau ac ar ôl Diwygiad 1859 ymunodd â'r seiat. Erbyn hynny 'roedd ei iechyd yn gwegian a bu blynyddoedd olaf ei oes bron yn gyfangwbl feudwyaidd. Bu farw yn un a deugain oed yn 1862.

* * * *

COLLODD y meddygon eu chwaer Eliza pan oedd hi'n un ar hugain oed,

**Geneth ddoniol gain a thyner — a**
**Yn adeg ei gwychder (edwodd**

meddai Eben Fardd amdani mewn englyn ar garreg ei bedd yng Nghlynnog. Tystia'r llyfr bychan o'i gwaith sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol mai arlunio oedd un ddawn a feddai yr 'eneth ddoniol'.

Dywedir mai gwaith Eben Fardd yw rhwymiad y llyfr. Rhyw bedair modfedd wrth dair yw maint ei dudalennau ac fe rannwyd pob un ohonynt yn ddwsin o sgwariau mân. Ceir darlun bychan twt ym mhob sgwâr gydag enw gwrthrych pob llun wrtho yn Gymraeg a Saesneg. Ni wn pa un ai codi'r darluniau o lyfr printiedig ynteu eu creu o'i dychymyg ei hun a




*Tudalen o PICTORIAL DICTIONARY Eliza Pughe*

wnaeth yr arlunydd ieuanc.

Beth bynnag am hynny, mae'r cyfanwaith yn hynod o gywrain, a chyffyrddir â thant tyner mewn nodyn yn y llyfr a ddywed bod Eliza Pughe yn fud a byddar o'i genedigaeth ac yn eneth dlos iawn.

Buddug Anwylini Pughe, un o blant talentog Ioan ab Hu Feddyg, a nith i Eliza, a gyflwynodd y llyfr bach i'r Llyfrgell Genedlaethol. Doniwyd hithau, hefyd, â dawn arlunydd ac yn ystod ei hoes faith fe gynhyrchodd doreth o ddarluniau.

Yr oedd yn arlunydd proffesiynol. Hyfforddwyd hi yn Ysgol Arlunio Lerpwl. Treuliodd lawer o amser ar gyfandir Ewrop. Bu'n gweithio yn ninasoedd Paris a Rhufain a Fenis. Crwydrodd wledydd megis Sbaen a Gwlad Belg ac yr oedd yn hoff o Lydaw.

Yn anffodus ychydig iawn o'i darluniau sydd ynghadw mewn sefydliadau cyhoeddus. Er i'w gwaith gael ei arddangos am dros hanner canrif yn y *Walker Art Gallery* yn Lerpwl, un yn unig o'i darluniau sydd yno. A dim ond un o'i phaentiadau a geir yn y Llyfrgell Genedlaethol, sef *The Old Lacemaker.*

Mor ddymunol fuasai medru casglu ynghyd rai o gampweithiau Buddug Anwylini Pughe i'w harddangos. Efallai y gwelid *Dolgelly Fair* mewn arddangosfa felly; dangoswyd y llun hwnnw yn yr Academi Frenhinol yn 1924 yr un adeg â darluniau Christopher Williams o enwogion megis Syr John Morris Jones a Syr Thomas Shankland. Ac efallai y buasai *The Quiet Village* a enillodd iddi wobr yn Eisteddfod Birkenhead yno. A buasai *Orphans — a cottage scene of children in Aberdyfi* mae'n debyg, yn enghraifft ddiddorol o deimladrwydd rhai o luniau oes Victoria.

Tybed a fedrid dod o hyd i'r llun mawr a werthwyd i rywun yn ardal Belfast *I canna mind my wheel mither?* Ac ym mhle y deuid o hyd i'r cannoedd eraill o'i lluniau. Yn sicr y mae llawer o'i darluniau ar gael o hyd yn Aberdyfi a'r cylch. Bu Buddug Anwylini Pughe farw yn 1939 yn 83 mlwydd oed.

# COFIO CAMPAU'R HEN GERDDOR

## Gan EDWEN M. RICHARDS

CERDDORIAETH fu fy niddordeb mawr i er pan oeddwn i'n ddim o beth ac yr oeddwn wedi cyrraedd chweched radd arholiadau'r Coleg Brenhinol cyn i mi symud o Ysgol Gynradd Chwilog i'r Cownti Sgŵl ym Mhwllheli yn 1927 — cyrraedd yn yr Hydref bythefnos helaeth yn hwyr oherwydd rhyw anfadwch neu gilydd. A dyma fyd cerddorol newydd yn agor i mi.

Yr oedd yna ddewin ifanc, W. H. J. Jenkins o Ben-y-bont ar Ogwr yn athro cerddoriaeth newydd yn yr ysgol, a hyfryd oedd gweld y deyrnged iddo gan Ioan Mai Evans yn y rhifyn diwethaf o'r *Casglwr.*

Yn syth bin dyma ddod i gwrdd â pherfformiadau gan bedwarawdau llinynnol Aberystwyth o dan arweiniad y feiolinydd Hubert Davies a chael mwynhau perfformiadau gwefreiddiol ar y cello gan Arthur Williams a fu'n aelod wedyn o bedwarawd enwog Klinger yn Berlin.

Ar ben hyn byddai Syr Walford Davies, oedd yn Feistr Cerddoriaeth Ei Fawrhydi yn ymweld yn gyson a Phwllheli. A Syr Walford oedd athro cerdd W. H. J. Jenkins pan oedd yn Athro Cerdd yn Aberystwyth cyn dyddiau Dr David de Lloyd.

Pianydd fach ofnus o Chwilog oeddwn i yn y dyddiau cynnar hynny, a braint frawychus oedd cael chwarae'r Sonata yn A fwyaf a Rondo yn G, anhygoel o anodd, Mozart ynghyd â darnau eraill o flaen Syr Walford.

Gyda chefnogaeth eiddgar y prifathro D. H. Williams dechreuodd Jenkins hyfforddi feiolinwyr yn ystod yr awr ginio yn yr ysgol, a chyfartaledd uchel iawn o'r disgyblion yn eu mynychu — a'r nef a ŵyr pa bryd yr oedd yr athro yn cael amser i fwyta, ac yr oedd yn un ffond iawn o'i fwyd (fe briododd ag Eluned Madoc Jones, merch prifathro Ysgol John Bright Aberystwyth ac athrawes coginio a gwaith tŷ yn yr ysgol ym Mhwllheli).

Erbyn 1929 yr oedd yna ddigon o fedr gennym ni'r disgyblion i ymffurfio'n gerddorfa ac i gynnal cyngherddau trwy wlad Llŷn — perfformiadau a barhaodd hyd y rhyfel.

* * * *

CYN TERFYN y rhyfel fe'i penodwyd yn ddarlithydd yng Ngholeg Brys, Llandrindod, ac yna cafodd waith oedd fwy at ei ddant — trefnydd cerdd i Sir Drefaldwyn. Gwnaeth waith mawr yma gyda'i gysylltiad â Gwyl Gerdd Trefaldwyn yn y Drenewydd a'i berthynas â theulu cerddgar Gregynog.

Wedi'r rhyfel fe'i penodwyd yn Drefnydd Cerdd Dinas Lerpwl. Un o'i gampweithiau yma oedd sefydlu Cerddorfa Ieuenctid Lerpwl a ddaeth o dan nawdd y Philharmonic, ac un a fu dano oedd Simon Rattle sy'n arweinydd Cerddorfa Symffoni Birmingham. Am ei waith yma fe'i hanrhydeddwyd ag M.A. gan Brifysgol Lerpwl.

Yn y saith degau cynnar yr oeddwn i'n bennaeth adran cerdd Coleg y Santes Catrin yn Lerpwl ac yn chwilio am athro i ddysgu trin offerynnau llinynnol. Yr oedd W. H. J. Jenkins wedi ymddeol ond yn byw yn y cyffiniau ac wedi ychydig berswâd fe benderfynodd ymafael yn y gwaith a bu yno gyda ni hyd oddeutu 1976.